



Mai 2019

Her y cyfryngau cymdeithasol ac ysgolion

Defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol gan rhieni

Mae'r cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook, Twitter, Instagram ac ati) wedi cael effaith eang ar y ffordd yr ydym yn cyfathrebu ac yn mynegi ein meddyliau a'n barn. Mae'n amlwg bod llawer o fanteision i ni fel unigolion a hefyd fel cymunedau, ac fel ysgol rydym yn ystyried sut orau i harneisio grym y cyfryngau cymdeithasol er mwyn ymgysylltu'n agosach byth â rhieni a disgyblion.

Yn anffodus, rydym hefyd yn profi nifer cynyddol o sefyllfaoedd lle mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn gyfrwng ar gyfer ymddygiad amhriodol gan rhieni.

Rydym yn byw mewn cymdeithas lle'r ydym yn ymfalchïo yn ein hawl i ryddid barn ac ni fyddem yn dymuno awgrymu y dylid cwtogi ar hyn mewn unrhyw ffordd. Ceir adegau, fodd bynnag, pan fydd pethau a ddwedir yn y byd rhithwir yn ddi-fudd ar y gorau; ar y gwaethaf gallant fod yn gyfystyr ag aflonyddu, bwlio neu fygwth, sy'n ymddygiad a allai arwain yn y pen draw at ymyrraeth gan yr Heddlu.

Y cyfryngau cymdeithasol fel fforwm ar gyfer barn rhieni

Mae ein staff ym Mro Ogwr yn gweithio'n eithriadol o galed i ddarparu'r addysg orau un i'n disgyblion ac maent bob amser am weithio mewn partneriaeth gyda rhieni a'r gymuned ehangach. Mae angen cydnabod hefyd bod yr holl weithgareddau allgyrsiol a ddarperir i wella cyfleoedd yn rhai gwirfoddol, gyda'r staff yn rhoi o'u hamser a'u hymdrech eu hunain.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd adegau pan na fydd rhieni, am ba bynnag reswm, yn cytuno â chamau penodol neu y gallai fod ganddynt bryderon penodol.

Mae'n hollol naturiol trafod bywyd ysgol a mynegi ein meddyliau a'n barn gydag eraill wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Mae rhai o'r sgysiau hyn bellach yn cael eu cynnal ar y cyfryngau cymdeithasol ac nid oes gan y sawl sy'n gwneud sylw fawr ddim rheolaeth dros bwy allai ei weld yn y pen draw.

Yn anffodus, gallai rhai o'r sylwadau hyn beri tramgwydd (fel y maent wedi gwneud mewn achosion diweddar) os cânt eu mynegi yn gyhoeddus ac mewn rhai achosion gallant fod yn fygythiol neu'n enllibus hyd yn oed. Nid yw hyn yn golygu nad ydym yn croesawu adborth a syniadau ar gyfer gwella ac rydym yn gobeithio eich bod yn cydnabod ein hymdrechion diweddar i sicrhau bod cyfathrebu yn amserol ac o gymorth.

Mae'r adborth bob amser yn dda pan fydd yn adeiladol a rhesymol ac yn canolbwyntio ar ddod o hyd i ddatrysiad derbyniol. Pan fydd angen dweud pethau anodd, y peth gorau fel arfer yw gwneud hynny wyneb yn wyneb, neu o leiaf trwy gyfathrebu'n breifat mewn rhyw ffordd, megis mewn e-bost neu lythyr. Mae rhai enghreifftiau diweddar o ddefnydd annoeth o'r cyfryngau cymdeithasol wedi peri i staff yr ysgol dreulio amser anghymesur yn ceisio rheoli materion a sefyllfaoedd ac wedi achosi llawer iawn o ofid. Byddai'n llawer gwell gennym pe bai'r amser a'r ymdrech yn cael eu defnyddio i ganolbwyntio ar addysg ein plant. Yn wir, rydym yn ystyried sefydlu fforwm rhieni yn y dyfodol i sicrhau bod y cyfathrebu hwn yn parhau mewn ffordd gadarnhaol a strwythuredig, er budd pawb.

Cwestiynau cyffredin

Os yw'r safle yr wyf yn rhoi sylwadau arno yn un 'preifat', yna pam ddylwn i boeni am yr hyn rwy'n ei ddweud, gan mai dim ond fy 'ffrindiau' sy'n gallu darllen y sylwadau hynny?

Ar ôl i sylw gael ei roi, does dim byd i rwystro defnyddwyr eraill rhag ei anfon ymlaen neu ei rannu. Gall yr hyn a ddechreuodd fel rhywun yn 'dweud ei ddweud' i ddechrau ledaenu'n llawer cyflymach ac achosi llawer o loes anfwriadol.

Sut allai'r Heddlu ymyrryd?

Os ystyrir bod sylwadau yn fygythiol neu'n wahaniaethol, gall yr Heddlu ymyrryd ac mae ganddynt yr awdurdod i atafaelu dyfeisiau symudol a chysylltu â darparwyr gwasanaethau.

Sut all rhieni helpu?

- Os ydych yn gwneud sylw ar y cyfryngau cymdeithasol a'i fod yn ymwneud â'r ysgol, y disgyblion neu rieni eraill, gwiriwch eich ffeithiau, byddwch yn ystyriol yn y ffordd yr ydych yn mynegi pethau a pheidiwch â defnyddio iaith y gallai eraill ei hystyried yn sarhaus, yn ddifriol neu'n fygythiol.
- Peidiwch â chyfeirio at ddisgyblion na staff unigol ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Os oes gennych bryder sylweddol am agwedd ar fywyd yr ysgol, siaradwch gyda rhywun yn yr ysgol cyn gwneud sylw amdano ar y cyfryngau cymdeithasol. Y weithdrefn gywir ar gyfer gwneud hyn yw siarad gydag athro/athrawes dosbarth eich plentyn yn y lle cyntaf.
- Os oes gennych gŵyn benodol na chafodd ei datrys ar y cam anffurfiol, dilynwch Bolisi Cwynion yr ysgol sydd ar gael ar wefan yr ysgol.

I gloi

Mae'n siomedig gorfod anfon y llythyr hwn ac rydym yn llwyr werthfawrogi bod y mwyafrif helaeth o rieni a gofawyr Bro Ogwr yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â materion ysgol yn gyfrifol ac mewn modd buddiol. Nid ydym yn awyddus i fygu trafodaeth nac atal rhieni rhag mynegi eu barn, ond rydym am hybu a hyrwyddo modelau rôl cadarnhaol yn y byd digidol yn ogystal â'r byd go iawn. Y bartneriaeth rhwng ysgolion a rhieni all helpu i addysgu disgyblion sut i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn ddiogel, yn gyfrifol ac yn ystyrllon.

Sharon Jayne
Pennaeth

Nik Dart
Cadeirydd y Llywodraethwyr